

TGP CYMRU

# GWASANAETH EIRIOLI

## Canllaw i'r Gwasanaeth




2023 | 24

**www.tgpcymru.org.uk**

Canllaw i Wasanaeth Eirioli TGP Cymru F2, Medi 2023

GWASANAETH EIRIOLI
**Canllaw**



# CYNNWYS


| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| Pwy ydym ni? | dau |
| Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud | dau |
| Beth yw eirioli? | tri |
| Sut allwn ni helpu? | tri |
| Gwybodaeth bwysig | tri |
| Y Cynnig Gweithredol | pedwar |
| Eirioli yn Seiliedig ar Broblem | pedwar |
| Newydd i TGP Cymru? | pump |
| Pwy yw fy eiriolwr? | pump |
| Eich cofnodion | pump |
| Canmoliaeth a chwynion | chwech |



Prif Swyddfa TGP Cymru,
SBARC, Heol Maindy,
Caerdydd, CF24 4HQ

Ffôn: 02920 396974
E-bost: admin@tgpcymru.org.uk

Unigolyn Cyfrifol: Rhiannon Beaumont-Walker
Rheolwr Cofrestredig: Sarah Durrant



TGP Cymru yw enw gweithredu Tros Gynnal Plant.
Rhif Elusen Gofrestredig 1099878. Wedi'i gofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant Rhif 04422485 (Cymru a Lloegr).

## Croeso i wasanaeth eirioli TGP Cymru

# PWY YDYM NI?

**Cafodd TGP ei sefydlu yn 2002. Erbyn heddiw TGP Cymru yw'r Elusen Hawliau Plant fwyaf blaenllaw sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, sy'n cynorthwyo ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed drwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu.**

Mae TGP wedi ymrwymo i lwyr wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym ni yn credu bod gan bob plentyn a pherson ifanc:

- yr hawl i gael eu safbwyntiau a'u dymuniadau wedi'u hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar eu bywydau
- ddealltwriaeth eu hunain o'u sefyllfa, eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u hanghenion, a dylid ystyried y rhain ac ymateb iddynt
- yr hawl i gael eu grymuso, ochr yn ochr â'u teuluoedd a'u gofalwyr i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i faterion lles
- yr hawl i gymryd rhan lawn yn eu cymuned.

Mae TGP Cymru yn sefydliad sydd wedi cofrestru o'r newydd sy'n golygu y byddwn ni'n cael arolygon bob ychydig o flynyddoedd. Bydd copïau o adroddiadau ein harolygon ar ein gwefan pan fyddant ar gael.



# YR HYN YR YDYM NI'N EI WNEUD

**Mae Gwasanaeth Eirioli TGP Cymru yn wasanaeth am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 0-25 mlwydd ac sy'n un o'r canlynol:**

- plentyn sy'n derbyn gofal
- plentyn nad yw'n derbyn gofal ond gall fod ag anghenion gofal a chymorth
- plentyn sydd o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig
- plentyn sydd wedi'i fabwysiadu neu a allai gael ei fabwysiadu
- person sy'n Gadael Gofal.

# BETH YW EIRIOLI?

## Eirioli yw:

- gwrando arnoch chi a'ch safbwynt
- rhoi gwybod i chi am eich hawliau
- eich helpu i ddweud eich barn a chael rhywun i wrando arnoch
- eich helpu i ddatrys pethau gyda gweithwyr/gofalwyr
- eich cefnogi a'ch helpu i ddweud eich dweud mewn cyfarfodydd
- eich grymuso i eirioli drosoch eich hun.



# SUT ALLWN NI HELPU?

## Gallwn ni

- Eich helpu chi i wneud cwyn
- Eich helpu chi i ddweud eich dweud am yr hyn yr ydych ei eisiau
- Eich helpu chi i ddweud eich dweud, gydag eraill, ynglŷn â'r hyn sy'n dda neu'r hyn y mae angen ei newid i blant a phobl ifanc mewn gofal.

## Gwybodaeth Bwysig

**Mae gwasanaeth eirioli TGP Cymru yn annibynnol ac yn gyfrinachol. Golyga hyn nad ydym ni'n gweithio i unrhyw un ond chi ac ni fyddwn ni'n rhannu unrhyw beth y byddwch yn ei ddweud wrthym ag eraill, oni bai ein bod yn credu bod yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym yn eich peryglu chi neu rywun arall.**

## Mae TGP Cymru yn darparu dau fath o wasanaeth eirioli:

# Y CYNNIG GWEITHREDOL

1

Cyfarfod yw hwn ag eiriolwr i ddysgu am eirioli a sut all fod o gymorth. Os ydych chi’n penderfynu eich bod chi eisiau eiriolwr yn ystod y cyfarfod yna gallwch fynd ymlaen i gael Eirioli yn Seiliedig ar Broblem (gweler isod). Os ydych chi’n penderfynu nad ydych chi eisiau eiriolwr yn ystod y cyfarfod yna gallwch ddweud wrthym. Ni fydd ots gennym. Rydym ni eisiau i chi gael y dewis. Fe fyddwn yn rhoi ein manylion cyswllt i chi felly os ydych chi’n newid eich meddwl yn y dyfodol, gallwch gysylltu â ni.

# EIRIOLI YN SEILIEDIG AR BROBLEM

2

Mae eirioli yn wahanol i waith cymorth. Y bwriad yw rhoi’r sgiliau i chi wneud pethau eich hun. Mae hyn yn bosibl drwy eirioli ar eich rhan chi a gyda chi i ddechrau a rhoi’r sgiliau a’r wybodaeth i chi i allu gwneud hynny eich hun dros amser.

Mae Eirioli yn Seiliedig ar Broblem yn golygu y byddwn yn eich cynorthwyo i ddatrys problem a pan gaiff y broblem ei datrys neu pan fo’r gwaith yn dod i derfyn naturiol, bydd ein gwaith gyda chi yn dod i ben. Ond gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

**I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth yw eirioli a sut y gallai eich helpu chi, mae fideo gwych ar ein gwefan. Cafodd y fideo ei greu gan bobl ifanc sydd wedi cael cymorth eirioli ac rydym ni’n credu ei fod yn ei esbonio’n dda iawn.**



# NEWYDD I TGP CYMRU?

Gallwch ddechrau defnyddio gwasanaeth eirioli TGP Cymru mewn nifer o ffyrdd: gallwch gael eich atgyfeirio gan eich gweithiwr cymdeithasol, athro, gofalwr maeth neu riant – neu unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n eich adnabod. Os bydd rhywun yn eich atgyfeirio at ein gwasanaeth, mae'n rhaid iddyn nhw ofyn am eich caniatâd i wneud hynny.

Gallwch atgyfeirio eich hun, sy'n golygu y gallwch chi gysylltu â ni pryd bynnag yr ydych chi'n dymuno a gofyn i ni am gymorth eirioli.

Nid oes ots sut y byddwch yn dod atom ni, fe fyddwn wastad yn eich trin â pharch. Ni fyddwn byth ni yn eich beirniadu. Fe fyddwn ni yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chi yn unig fydd yn ein harwain.



# PWY YW FY EIRIOLWR?

Pan fyddwch yn defnyddio gwasanaeth eirioli TGP fe fydd eiriolwr yn cael ei neilltuo i chi. Mae manylion am eich eiriolwr yn y Pecyn Eirioli y bydd eich eiriolwr yn ei roi i chi yn y cyfarfod cyntaf. Rydym ni'n ceisio peidio â newid eich eiriolwr yn rhy aml, oni bai eich bod chi eisiau i ni wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw wastad yn bosib cadw yr un eiriolwr ac fe fyddwn ni'n esbonio pam bob tro.

Gallwch ddweud wrthym os byddai'n well gennych gael eiriolwr gwrywaidd neu fenywaidd. Gallwch hefyd ddweud wrthym os ydych chi eisiau siarad Cymraeg, Saesneg, neu unrhyw iaith arall gyda'ch eiriolwr. Nid oes ots gennym ni o gwbl, rydym ni eisiau i chi deimlo'n gyfforddus gyda'ch eiriolwr.

# EICH COFNODION

Pan fyddwch yn dechrau derbyn gwasanaeth eirioli gan TGP Cymru, bydd eich eiriolwr yn gofyn i chi lofnodi rhai ffurflenni. Mae'r rhain yn cynnwys ffurflen ganiatâd ac mae'r ffurflen hon yn esbonio sut yr ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch chi. Eich ffeil y byddwn yn ei alw a byddwn yn ei gadw'n ddiogel iawn. Gallwch ofyn i edrych arno ar unrhyw bryd. Os ydych chi eisiau gweld eich ffeil a bod gennych chi eiriolwr yna dywedwch wrth eich eiriolwr ac fe fydd ef neu hi yn ei ddangos i chi. Os bu gennych eiriolwr yn y gorffennol ond nad oes gennych chi un erbyn hyn, gallwch ddal i weld eich ffeil. Gallwch ofyn i Rhiannon neu Sarah drwy anfon e-bost at **admin@tgpcymru.org.uk**

# Canmoliaeth a Chwynion:

Rydym ni'n croesawu adborth gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaeth eirioli. Mae adborth yn ein helpu ni i wella ein gwasanaeth. Os na fyddwch yn dweud wrthym pan rydych yn hapus neu'n anhapus, ni fyddwn ni'n gwybod

**Os ydych chi'n hapus â'ch eiriolwr ac eisiau rhoi gwybod i ni gallwch wneud hynny drwy:**

1. Dweud wrth eich eiriolwr
2. Llenwi a dychwelyd adran adborth y Daflen Gwynion (mae hwn yn eich Pecyn Eirioli a roddwyd i chi yn ystod eich cyfarfodydd cynnar gyda'ch eiriolwr).
3. Anfon e-bost at feedback@tgpcymru.org.uk
4. Ffonio Sarah ar: 029 2278 5146.

**Os ydych chi'n anhapus â'ch eiriolwr neu TGP Cymru yn gyffredinol, gallwch:**

1. Ddweud wrth eich eiriolwr
2. Dweud wrth eich gweithiwr cymdeithasol, athro, rhiant, gofalwr a gofyn iddyn nhw ddweud wrth eich eiriolwr / eich rheolwr tîm lleol
3. Llenwi a dychwelyd adran adborth y Daflen Gwynion (mae hwn yn eich Pecyn Eirioli a roddwyd i chi yn ystod eich cyfarfodydd cynnar gyda'ch eiriolwr).
4. Anfon e-bost at feedback@tgpcymru.org.uk
5. Ffonio Sarah ar: 029 2278 5146.

**Fe fyddwn yn gwrando ar eich cwyn ac yn rhoi adborth i chi am y pryderon y gwnaethoch chi sôn amdanyn nhw.**

**Os ydych chi wedi cwyno wrthym yn barod ac nad ydych chi'n hapus â'n hymateb ni, gallwch ddweud wrth:**

Rocio Cifuentes,, Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Plant Cymru • Tŷ Llewellyn • Parc Busnes Glan y Harbwr • Heol yr Harbwr •

Port Talbot • SA13 1SB

**01792 765600 • 0808 801 1000 • post@childcomwales.org.uk**

Ar gais, gall yr wybodaeth hon fod ar gael mewn gwahanol ieithoedd a fformatau. Gall TGP Cymru hefyd esbonio'r canllaw hwn i chi yn bersonol. Cysylltwch â communications@tgpcymru.org.uk.

## Cymryd Rhan

Rydym ni bob amser yn chwilio am blant a phobl ifanc i'n helpu ni i lywio ein gwasanaethau. Os ydych chi wedi defnyddio ein gwasanaeth ac mae gennych chi syniadau am yr hyn y gallem ni ei wneud yn wahanol, neu os ydych chi eisiau helpu i wella a newid ein gwasanaeth, rhowch wybod i ni. Nid oes ots ble'r ydych yn byw, byddem ni wrth ein bodd i glywed gennych.

**Ffoniwch Sarah: 029 2278 5146**
**E-bostiwch: admin@tgpcymru.org.uk**